------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Chwefror 2023

Amser: 12.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# Ar y safle - Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

## 5 Papurau i'w nodi

(12.15 - 12.20)

### 5.6 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

(Tudalennau 1 - 6)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-23 - Papur 24 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 10 Chwefror 2023 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-06-23 - Papur 25 - Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 3 Chwefror 2023

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio): Adroddiad drafft

(15.45 - 16.30) (Tudalennau 7 - 82)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-23 - Papur 19 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 10 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio Adroddiad drafft

(16.30 – 17.15) (Tudalennau 83 – 106)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-23 – Papur 22 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/42/2023

Huw Irranca-Davies MS,
Chair
Legislation, Justice and Constitution Committee
Senedd Cymru

10 February 2023

Dear Huw,

**Legislation, Justice and Constitution Committee, 16 January 2023 - Welsh Government's Draft Budget for 2023-24 (spending in relation to justice) and general scrutiny**

Thank you for your letter of 3 February. I will provide answers to your questions by 23 February in the normal way.

You asked for answers to questions 7 to 10 on retained EU law by 10 February. You will see those answers in the attached annex.

Yours sincerely,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Annex**

**Retained EU Law (Revocation and Reform) Bill**

*7. Please could you provide an update on intergovernmental joint working and advise of any joint plans agreed to date?*

I have remained in contact with UK Ministers to make clear the Welsh Government's significant and continuing concerns about the aspects of the Bill that have previously been set out. Officials from the Welsh Government, and the other Devolved Governments, remain in regular and constructive contact with their counterparts in the UK Government, both centrally and with relevant policy departments, including on potential joint work, though no formal plans have been agreed.

*8. What action will you take if the Senedd refuses consent to the Bill and how will you draw any concerns you have to the attention of the UK Parliament?*

In such circumstances, the Welsh Government believes that the correct approach would be for the UK Government to withdraw the Bill or to amend it so that devolved law is removed from the sunset. We would anticipate that, should the Senedd refuse consent to this bill, the Senedd would notify Parliamentary clerks of that outcome in the usual way and that, in turn, the Senedd's position would be included on the UK Parliament website pages dedicated to this Bill.

*9. What action will you take if the Bill subsequently becomes law, without the amendments you would like to see made?*

As above, in such circumstances, the Welsh Government will continue to work to minimise the negative consequences of the Bill for the people of Wales. However, more detail on the precise actions we would need to take remains to be identified, once we have the necessary information from the UK Government on its intentions for REUL for which it is responsible, and subject to any changes to the Bill in its Parliamentary passage.

*10. Does the Welsh Government consider that the Senedd has the legislative competence to bring forward a Welsh Bill that would amend the Retained EU Law (Revocation and Reform) Bill (if and when enacted) so as to amend the sunset date as it currently applies to retained EU law in devolved areas? Is the Welsh Government considering bringing forward such a Bill if the sunset date of 31 December 2023 remains in the Bill?*

The Welsh Government is considering all options for minimising the negative impact of the Bill on the people of Wales. As in any situation, should the Welsh Government bring forward primary legislation, it would need to be satisfied that the legislation falls within legislative competence.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**–**
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
**–**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

03 Chwefror 2023

Annwyl Mick

**Y Pwyllgor Deddfwriaethol, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023 - Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 (gwariant mewn perthynas â chyfiawnder) a gwaith craffu cyffredinol**

Diolch am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 16 Ionawr ac am roi tystiolaeth ar faterion yn ymwneud â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, yn benodol o ran gwariant mewn perthynas â chyfiawnder, ac am ateb cwestiynau mwy cyffredinol ynghylch eich cyfrifoldebau portffolio.

Mae nifer o faterion nad oeddem yn gallu eu codi gyda chi yn ystod y cyfarfod. At hynny, mae materion yr hoffem fynd ar eu trywydd ymhellach.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymatebion i’r cwestiynau sydd wedi'u rhestru yn yr Atodiad erbyn 23 Chwefror 2023 (mae cyfeiriadau at Gofnod y Trafodion ar gyfer y sesiwn dystiolaeth wedi’u darparu lle y bo angen).

O ystyried ein dyddiad cau ar gyfer adrodd ar y memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb i gwestiynau 7 i 10 erbyn canol dydd ar 10 Chwefror 2023.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies



**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Atodiad**

## Cyfiawnder

1. Yn eich gohebiaeth at y Pwyllgor, fe wnaethoch ailadrodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i greu system dribiwnlysoedd wedi'i moderneiddio i Gymru. A allwch chi roi unrhyw newyddion ar y gwaith sydd ar y gweill i baratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth honno a phryd y gallem ddisgwyl iddi ddod gerbron y Senedd?

## Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020

2. A yw Llywodraeth Cymru yn dal i fwriadu defnyddio Bil Diogelu'r Amgylchedd (Plastigau Untro) (Cymru) fel enghraifft ymarferol mewn her gyfreithiol yn erbyn Deddf Marchnad Fewnol y DU (ar faterion nad ydynt yn ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol), ac os felly pa lwybr fyddwch chi'n ei ddefnyddio?

3. Gwnaethom eich holi'n fanwl am effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU (Cofnod y Trafodion 94-115). Gwnaethoch ddweud wrthym:

   > *"I think the fact that the single-use plastics Bill has now been passed, will be going for Royal Assent now—. I think there is a period of time before implementation, because of the World Trade Organization requirements, et cetera, but the Attorney-General has clearly taken the decision that it's not a matter to be referred to the Supreme Court, and I'm content to accept that.* ***It doesn't mean that there aren't issues with the internal market Act, but they may arise at a later stage****." [Ein pwyslais ni].*

   O ran y frawddeg olaf, a allwch egluro beth yw'r problemau posibl gyda'r Ddeddf a phryd y gallech ddisgwyl iddynt godi?

4. Yn ystod dadl yn y Cyfarfod Llawn ar gynnig cydsyniad ar gyfer y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) ar 17 Ionawr, dywedodd y Gweinidog Materion Gwledig: "Pan fo'r Senedd yn deddfu, maen nhw'n gwneud hynny'n rhydd o UKIMA, felly gellir gwneud deddfwriaeth Senedd sylfaenol mewn maes datganoledig yn rhydd o ofynion UKIMA" [Cofnod y Trafodion, y Cyfarfod Llawn, para 439]. Mae'n amlwg nad yw Deddf Marchnad Fewnol y DU yn effeithio ar gymhwysedd y Senedd i wneud deddfwriaeth, ond ein pryder o hyd yw y gall y Ddeddf gael effaith ymarferol ar weithrediad deddfwriaeth o'r fath ar ôl iddi ddod i rym. A allwch chi nodi ar ba sail y mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad nad yw darpariaethau mewn Deddf y Senedd yn;

   - 'ofynion perthnasol' at ddibenion yr egwyddor cyd-gydnabod ar gyfer nwyddau yn adran 2 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU;


Senedd Cymru
Welsh Parliament

- 'gofyniad deddfwriaethol' mewn perthynas â gwasanaethau, yn unol ag adran 17 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU?

5. O ystyried barn Llywodraeth Cymru ar y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl), a fyddwch yn ceisio eithrio technolegau genetig o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad yn Neddf Marchnad Fewnol y DU os daw'r Bil yn gyfraith?

## Cysylltiadau rhynglywodraethol

6. Mae nifer fawr o anghytundebau parhaus ynghylch deddfwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn enwedig ynghylch Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir. A yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried defnyddio'r mecanweithiau datrys anghydfodau rhynglywodraethol i fynd i'r afael â'r materion hyn? Os na, pam ddim? A yw'r mecanweithiau'n gwbl weithredol?

## Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

7. A fyddech cystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gydweithio rhynglywodraethol a rhoi gwybod am unrhyw gynlluniau ar y cyd y cytunwyd arnynt hyd yma?

8. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd os bydd y Senedd yn gwrthod rhoi cydsyniad i'r Bil a sut y byddwch yn tynnu sylw Senedd y DU at unrhyw bryderon sydd gennych?

9. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd os daw'r Bil yn gyfraith wedyn, heb y gwelliannau yr hoffech eu gweld yn cael eu gwneud?

10. A yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod gan y Senedd y cymhwysedd deddfwriaethol i gyflwyno Bil i Gymru a fyddai'n diwygio Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (os a phan y'i deddfir) er mwyn diwygio'r dyddiad machlud fel y mae'n gymwys ar hyn o bryd ar gyfer cyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig? A yw Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno Bil o'r fath os bydd y dyddiad machlud, sef 31 Rhagfyr 2023, yn parhau yn y Bil?

## Hygyrchedd y Gyfraith

11. Pa gynlluniau sydd gennych ar gyfer 2023-24 i wella hygyrchedd cyfraith Cymru?

12. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i gydgrynhoi cyfraith cynllunio?

13. Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran cydgrynhoi ac ail-wneud Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007?

14. Sut caiff hygyrchedd y gyfraith ei ystyried pan fydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu a ddylid cytuno i Filiau'r DU wneud darpariaethau mewn meysydd datganoledig? A oes unrhyw fath o asesiad risg neu asesiad tebyg yn cael ei gynnal?

## Deddfwriaeth

15. A oes unrhyw feysydd polisi yr ydych yn rhagweld y bydd angen maint sylweddol o is-ddeddfwriaeth ar eu cyfer dros y 12 mis nesaf?

16. Pa is-ddeddfwriaeth sylweddol, os o gwbl, y mae'n rhaid ei chyflwyno yn y flwyddyn galendr hon, efallai i weithredu Deddfau a basiwyd gan y Senedd yn y blynyddoedd diwethaf neu oherwydd bod yn rhaid gwneud rheoliadau newydd neu ddiweddaru rheoliadau?

17. A oes gan Lywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd restr o flaenoriaethau o ran is-ddeddfwriaeth y mae'n rhaid ei gwneud, neu a fydd yn cael ei gwneud, yn 2023? Os oes gan Lywodraeth Cymru restr o flaenoriaethau, sut y bydd yn dad-flaenoriaethu, neu pa gynlluniau wrth gefn sy'n cael eu rhoi ar waith, os oes angen symud ffocws adnoddau'r llywodraeth i ddrafftio is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i achub neu ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir?

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon